



LEFEL 3 TYSTYSGRIF / DIPLOMA

4463N60-1A

IONAWR 2022

GWYDDOR FEDDYGOL

UNED 6 (Cyflyrau Meddygol)

I'w defnyddio gydag arholiad

Uned 6 Astudiaeth Achos Feddygol

Erthygl wedi'i rhyddhau ymlaen llaw i'w defnyddio yn yr arholiadau canlynol ar DDYDD MAWRTH, 25 IONAWR 2022

Lefel 3 Diploma mewn Gwyddor Feddygol

Lefel 3 Tystysgrif mewn Gwyddor Feddygol

Epilepsi

Mae epilepsi yn gyflwr cyffredin sy'n effeithio ar yr ymennydd. Mae dros 40 math gwahanol o epilepsi.

Symptomau epilepsi

Mae epilepsi yn achosi ffitiau (*seizures*). Mae'r ffitiau hyn yn gallu bod yn rhannol neu'n gyffredinol ac maen nhw'n gallu effeithio ar bobl mewn ffyrdd gwahanol, yn dibynnu ar faint o'r ymennydd sy'n gysylltiedig â'r ffitiau.

Mae symptomau yn cynnwys:

- confylsiwn neu ffit o'r enw ffit 'tonig-clonig'
- colli ymwybyddiaeth (*awareness*), sy'n aml yn cael ei alw'n 'absenoldeb'
- cyhyrau'n gwingo (*jerking*) ac yn crynu, sy'n aml yn cael ei alw'n ffit 'myoclonig'
- ffit 'tonig' neu 'atonig', sef 'pwl syrthio'n glep (*drop attack*)' sy'n cynnwys mynd yn stiff
- teimladau rhyfedd, fel teimlad 'codi' yn y bol, arogl neu flas anarferol ar bethau, a theimlad pigog (*tingling*) yn y breichiau neu'r coesau.

Beth sy'n achosi epilepsi

Mewn epilepsi, mae'r signalau trydanol yn yr ymennydd yn cael eu drysu gan byliau sydyn o weithgarwch trydanol. Mae hyn oherwydd annormaledd yn niwronau'r ymennydd a'r synapsau. Yn y rhan fwyaf o achosion, dydy hi ddim yn glir pam mae hyn yn digwydd. Mae epilepsi'n gallu cael ei achosi gan niwed i'r ymennydd, fel:

- strôc
- tiwmor ar yr ymennydd
- anaf difrifol i'r pen
- camddefnyddio cyffuriau neu alcohol
- haint ar yr ymennydd
- diffyg ocsigen yn ystod geni.

Rhoi diagnosis o epilepsi

Os yw meddyg teulu'n amau bod gan glaf epilepsi, bydd yn atgyfeirio'r claf at niwrolegydd fydd yn argymhell prawf i archwilio gweithgarwch yr ymennydd, sef electroencefalogram (EEG). Yn ystod yr EEG, bydd y niwrolegydd yn chwilio am bresenoldeb patrymau ymennydd annormal, yn enwedig sbigynnau (*spikes*), patrymau o ffitiau tonig neu atonig, neu drigeri (*triggers*) fydd yn achosi ffit tonig-clonig.

Triniaethau ar gyfer epilepsi

Mae triniaeth yn gallu helpu'r rhan fwyaf o bobl ag epilepsi fel eu bod nhw'n cael llai o ffitiau, neu'n stopio cael ffitiau yn gyfan gwbl. Mae'r triniaethau yn cynnwys:

- cyffuriau gwrth-epilepsi. Mae Llyfr Fformiwlâu Cenedlaethol Prydain (*British National Formulary*: BNF) sy'n cael ei gyhoeddi gan NICE yn cynnwys tua 26 cyffur gwrth-epilepsi. Yr un mwyaf cyffredin ar bresgripsiwn yn y DU (UK) yw sodiwm falproad. Mae pob claf sy'n cael presgripsiwn ar gyfer cyffuriau gwrth-epilepsi yn cael ei fonitro â phroffion gwaed rheolaidd oherwydd eu sgil effeithiau tocsig.
- llawdriniaeth i dynnu rhan fach o'r ymennydd sy'n achosi'r ffitiau
- deiet arbennig sy'n gallu helpu i reoli ffitiau.

Byw gydag epilepsi

Fel arfer, mae epilepsi yn gyflwr gydol oes (*lifelong condition*). Mae'r rhan fwyaf o bobl sydd ag epilepsi yn gallu byw bywydau normal os ydyn nhw'n gallu rheoli eu ffitiau'n dda. Mae angen i bobl ag epilepsi holi eu meddygon cyn gwneud pethau fel gyrru, rhai swyddi, nofio, defnyddio dulliau atal cenhedlu a chynllunio beichiogrwydd. Mae cyngor ar gael gan y meddyg teulu a grwpiau cefnogi i helpu cleifion i addasu i fywyd gydag epilepsi.

Canser y coluddyn

Mae canser y coluddyn yn derm cyffredinol ar gyfer canser yn y coluddyn mawr. Weithiau, mae canser y coluddyn yn cael ei alw'n ganser y colon neu'n ganser y rectwm.

Symptomau canser y coluddyn

Dyma dri phrif symptom canser y coluddyn:

- gwaed yn y carthion
- newidiadau i waith y coluddion (*bowel movements*)
- poen, ymchwyddo (*bloating*) neu anghysur parhaus yn rhan isaf yr abdomen.

Beth sy'n achosi canser y coluddyn

Dydyn ni ddim yn gwybod beth yn union sy'n achosi canser y coluddyn, ond mae llawer o bethau'n gallu cynyddu'r risg. Mae'r rhain yn cynnwys:

- oed
- deiet sy'n cynnwys llawer o gig coch neu gig wedi'i brosesu, a dim llawer o ffibr
- gordewdra
- diffyg ymarfer corff
- alcohol ac ysmegu
- hanes teuluol.

Rhoi diagnosis o ganser y coluddyn

Os yw symptomau'n awgrymu canser y coluddyn, bydd y meddyg teulu'n atgyfeirio claf i gael colonosgopi, a bydd biopsi'n cael ei gymryd fel arfer. Yna bydd y sampl meinwe hwn yn cael ei brosesu a'i ddadansoddi gan yr adran histopatholeg.

Trin canser y coluddyn

Y prif driniaethau yw:

- llawdriniaeth – tynnu'r darn canseraidd o'r coluddyn. Dyma'r ffordd fwyaf effeithiol o drin canser y coluddyn
- cemotherapi – mae cyffuriau cyfunol yn aml yn cael eu defnyddio sy'n effeithio ar ddyblygu DNA, e.e. fflworowracil ac asid ffolinig
- radiotherapi
- triniaethau eraill, sy'n gallu cynnwys imiwnotherapi a therapi ffotodynamig.

Byw gyda chanser y coluddyn

Mae canser y coluddyn yn gallu effeithio ar fywyd pob dydd y claf mewn ffyrdd gwahanol, yn dibynnu ar gyfnod (*stage*) y canser a'r driniaeth sy'n cael ei rhoi. Mae cemotherapi a radiotherapi bob amser yn achosi sgil effeithiau.

Dylai cefnogaeth briodol fod ar gael i gleifion i'w helpu nhw i ymdopi â'u diagnosis a deall eu triniaeth.

Llid yr isgroen (*cellulitis*)

Haint croen sy'n cael ei achosi gan facteria yw llid yr isgroen. Mae'n gallu bod yn ddifrifol os nad yw'n cael ei drin yn gyflym.

Symptomau llid yr isgroen

Mae llid yr isgroen yn achosi i'r croen droi yn goch, yn boeth ac yn boenus. Mae'r croen yn gallu edrych fel pe bai wedi chwyddo ac yn llawn pothelli (*blistered*).

Fel arfer, mae llid yr isgroen yn effeithio ar y dwylo, y traed a'r coesau.



Beth sy'n achosi llid yr isgroen

Haint bacteriol sy'n achosi llid yr isgroen. Mae'r bacteria yn heintio haenau dyfnach y croen ar ôl brathiad gan bryfn, archoll (*cut*), neu os yw'r croen yn sych ac wedi cracio. Rhai straeniau penodol o *Streptococcus* a *Staphylococcus* sy'n achosi llid yr isgroen.

Mae cleifion yn wynebu mwy o risg o ddioddef llid yr isgroen:

- os yw eu cylchrediad yn wael
- os ydyn nhw'n cael trafferth symud o gwmpas
- os yw eu system imiwnedd yn wan
- os oes ganddyn nhw lymffoedema, sy'n achosi i hylif gronni (*fluid build-up*) o dan y croen
- os ydyn nhw'n chwistrellu cyffuriau
- os ydyn nhw wedi cael llawdriniaeth

Rhoi diagnosis o lid yr isgroen

Bydd meddyg yn gallu rhoi diagnosis o lid yr isgroen drwy edrych ar y rhan o'r croen sydd wedi'i heintio. Efallai bydd y meddyg yn cymryd sampl gwaed a swab o'r rhan o'r croen sydd wedi'i heintio er mwyn cadarnhau'r diagnosis.

Triniaeth ar gyfer llid yr isgroen

Ar gyfer llid yr isgroen ysgafn sy'n effeithio ar ran fach o'r croen, bydd meddyg teulu'n rhoi presgripsiwn ar gyfer gwrthfotigau. Mae'r gwrthfotigau hyn yn gallu cael eu rhoi ar y croen, drwy'r geg, neu'n fewnwythiennol, yn dibynnu ar ba mor ddifrifol yw'r haint. Y gwrthfotigau mwyaf cyffredin sy'n cael eu defnyddio i drin llid yr isgroen yw penisilin, deucloksasilin ac erythromycin. Mae'r rhan fwyaf o bobl yn gwella'n llwyr ar ôl 7 i 10 diwrnod.

Atal llid yr isgroen

Efallai y bydd rhai pobl sy'n cael llid yr isgroen rheolaidd (*recurring cellulitis*) yn cael gwrthfotigau dos isel, tymor hir i atal yr haint rhag dod yn ôl. Mae llid yr isgroen rheolaidd yn bryder mewn rhai cleifion oherwydd y posibilrwydd o haint MRSA.